

PWYLLGOR: **BWRDD PENSIWN**

DYDDIAD: **6 MAWRTH 2023**

TEITL: **CYMERADWYO CYLLIDEB 2023/24**

PWRPAS: **I gyflwyno cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.**

AWDUR: **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI**

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno Cyllideb 2023/24 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.
- 1.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor Pensiynau'r gyllideb yn eu cyfarfod ar 18ain Ionawr 2023.

## 2. UNED GWEINYDDU PENSIYNAU

	<b>Terfynol 2022/23</b>	<b>Chwyddiant 2023/24</b>	<b>Addasiadau*</b>	<b>Cyllideb 2023/24</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>
Gweithwyr	820,650	66,050	14,070	900,770
Costau teithio a chynhaliaeth	1,440	0	0	1,440
Cyflenwadau a Gwasanaethau	259,430	19,510	0	278,940
Gwasanaethau Canolog	125,900	6,300	0	132,200
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,207,420</b>	<b>91,860</b>	<b>14,070</b>	<b>1,313,350</b>

\* Mae'r addasiadau'n cynnwys ail-raddio 1 swydd ac incrementau staff eraill.

### 2.1 Gweithwyr, costau teithio a chynhaliaeth

Mae'r gyllideb ar gyfer yr adain yma'n cynnwys 22 swydd llawn amser (3 ohonynt yn swyddi dros dro) a 2 swydd rhan amser.

### 2.2 Cyflenwadau a Gwasanaethau

Mae'r gyllideb yma'n cynnwys costau argraffu, defnyddiau swyddfa a chostau meddalwedd.

### 2.3 Gwasanaethau Canolog

Mae'r gwasanaethau canolog yn cynnwys elfen o gostau Cyfarwyddwr y Gronfa, y Pennaeth Cyllid a'i staff ategol, a chefnogaeth gan wasanaethau'r Cyngor megis technoleg gwybodaeth, corfforaethol a chyfreithiol.

### 3. UNED BUDDSODDI

	<b>Terfynol 2022/23 £</b>	<b>Chwyddiant 2023/24 £</b>	<b>Addasiad £</b>	<b>Cyllideb 2023/24 £</b>
Gweithwyr	118,070	14,390	0	132,460

#### 3.1 Gweithwyr

Mae'r adain yma wedi'i leoli o fewn y brif uned Cyllid Canolog, felly dim ond elfen o'r swyddi a ariennir gan y Gronfa Bensiwn.

Ceir 3 swydd llawn amser yn yr uned gydag amser y swyddogion wedi'i rannu rhwng Cronfa Bensiwn Gwynedd a Chyngor Gwynedd. Ariennir y canrannau canlynol o'r swyddi gan y Gronfa Bensiwn:

- Rheolwr Buddsoddi (90%)
- Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau (85%)
- Cyfrifydd Cynorthwyol Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys (65%)

### 4. COSTAU RHEOLWYR BUDDSODDI AC YMGYNGHORWYR

- 4.1 Nid oes cyllideb yn cael ei osod ar y pwynt yma gan fod y gwariant yn newidiol, ond mae'r gwariant yn cael ei adrodd yn llawn o fewn y cyfrifon terfynol ac Adroddiad Blyneddol y Gronfa.

### 5. ARGYMHELLIAD

- 5.1 Gofynnir i'r Bwrdd nodi cyllideb yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24.